



**PWYLLGOR CYSTADLAETHAU  
DYDD IAU 23 Tachwedd, 2021  
TRWY GYFRWNG ZOOM, 6.00YH**

## Cofnodion

---

**CADEIRYDD:** Miss Sian Healey

**IS-GADEIRYDD:** Miss Sioned Davies

**PRESENNOL:**

Sian Healey (Cadeirydd y Pwyllgor), Sioned Davies (Ceredigion), Katie Court (Morgannwg), Delun Evans (Sir Benfro), Elen Williams (Morgannwg), Aled Thomas (Sir Gaerfyrddin), Kate Thomas (Morgannwg), Emma Rees (Brycheiniog), Emma Powell (Brycheiniog), Carys Phillips (Sir Benfro), Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru), Deryn Evans (Brycheiniog), Gwyneth Thomas (Trefnydd Ffederasiwn Morgannwg), Elin Lewis (Maldwyn), John James (Maesyfed), Edna Jones (Trefnydd Ffederasiwn Ynys Môn), Manon Williams (Meirionnydd), Lynfa Jones (Maldwyn), Hefin Evans (Is-gadeirydd CFFI Cymru), Aled Rees (Maldwyn), Will Hughes (Ynys Môn), Elizabeth Swancott (Maesyfed), Lliwen Jones (Maldwyn), Eloisa Isaac (Maldwyn), Ffion Wright-Evans (Trefnydd Ffederasiwn Maldwyn), Gemma Owen (Maldwyn)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Phil Ellis (Prif Weithredwr CFFI Cymru), Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol CFFI Cymru)

**C/27/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Fe wnaeth y Cadeirydd Sian Healey groesawu pawb i'r cyfarfod arbennig o'r is-bwyllgor cystadlaethau ac estynnodd groeso i Brif Weithredwr newydd CFFI Cymru, Mr Phil Ellis.

**C/28/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Caf ymddiheuriadau oddi wrth Angharad Jones (Meirionnydd) a Ffion Rees (Sir Gaerfyrddin)

**C/29/2022 GWLEDD O ADLONIAINT 2022**

Atgoffwyd y pwyllgor fod llythyr wedi'i anfon at Grŵp Llywio Cystadlaethau FfCCFFI ynghylch y cyfyngiadau mae siroedd yn eu hwynebu mewn perthynas â hwyluso'r gystadleuaeth.

Rhoddodd Siân ddiweddariad oddi wrth Grŵp Llywio Cystadlaethau FfCCFFI. Cytunodd y Grŵp Llywio i fwrw ymlaen â chystadleuaeth y Pantomeim er gwaethaf hynny. Teimlid fod angen cynnal cystadleuaeth y Pantomeim er mwyn sicrhau fod y mudiad yn dychwelyd i sefyllfa mor normal â phosibl. Nodwyd y byddai'r beirniaid yn cael eu hysbysu am unrhyw gyfyngiadau mae unrhyw ardaloedd yn eu hwynebu. Cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Llywio y byddai dyddiad cau derbyn y ceisiadau yn cau wythnos yn ddiweddarach na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol, sef ar yr 2il o Ebrill.

Gofynnodd Siân i aelodau'r is-bwyllgor am adborth o'r Ffederasiynau Sirol.

Mae Morgannwg yn bwrw ymlaen â'r gystadleuaeth a chaiff ei gynnal yn Theatr y Dywysoges Frenhinol. Mae ganddynt dri chlwb yn cystadlu a chaiff ei chynnal ar un noson. Byddant hefyd yn cynnal cystadleuaeth 'One Plus' mewn lleoliad arall.

Mae Sir Benfro yn bwrw ymlaen â'r gystadleuaeth yn y ddwy iaith. Caiff eu cystadleuaeth ei chynnal yn yr ysgol yn Abergwaun. Nid oes cyfyngiadau yn eu lleoliad, ond mae angen iddynt ddarparu Asesiad Risgiau manwl.

Mae gan Maldwyn ychydig o bryderon am eu lleoliad arferol, Theatr Hafren. Maent wedi dwyn sylw at nifer o gyfyngiadau y byddai'n rhaid i'r sir gadw atynt. Mae'r Ffederasiwn yn mynd i gael trafodaeth ynghylch beth maent am benderfynu ei wneud. Oherwydd y cyfyngiadau, mae gan y theatr ystyriaethau ariannol i'w hystyried.

Hoffai Brycheiniog gynnal cystadleuaeth y Pantomeim ond maent yn dal i drafod â'u theatr.

Mae Ynys Môn yng nghramau cynnar y broses o drefnu ac maent yn dal i ystyried gwahanol leoliadau. 50 yw uchafswm nifer y gynulleidfa yn y lleoliad ble gwnaethant gynnal eu cystadleuaeth yn flaenorol, felly maent yn ystyried lleoliadau mwy.

Bydd Maesyfed yn cynnal cyfarfod gyda chynrychiolwyr yr holl glybiau ar ddechrau Rhagfyr. Mae ganddynt bryderon ynghylch beth allai ddigwydd. Mae hynny'n cynnwys beth pe bai'r beirniaid yn cael prawf COVID positif ar ganol y gystadleuaeth neu os bydd aelod sy'n cystadlu yn dal COVID. Ond fel Sir, maent yn awyddus i gyd-fynd â threfniadau CFFI Cymru a sicrhau fod yr holl aelodau sy'n cystadlu yn fodlon â'r strwythur a'r rheolau. O ran lleoliad, mae lleoliadau arferol Maesyfed yn fodlon i'r gystadleuaeth gael ei chynnal yno, ag ychydig iawn o gyfyngiadau.

Nododd Meirionnydd fod ganddynt ddau glwb sy'n dymuno cystadlu yng nghystadleuaeth y Pantomeim. O ran lleoliad, byddent yn gallu defnyddio eu lleoliad arferol. Mae gan rai o staff a swyddogion y Sir bryderon o ran y nifer o bobl sy'n rhan o bantomeim, ac yn credu y gallai drama fod yn haws efallai.

Cynhaliodd Ceredigion bleidlais yn eu cyfarfod sirol, ac fe wnaeth mwyafrif y clybiau bleidleisio am ddrama yn hytrach na phantomeim. Ers y cyfarfod diwethaf, mae eu lleoliad wedi cytuno y byddent yn cael cynnal dau berfformiad bob noson yn hytrach na dim ond un. Byddai hyn yn golygu y gallai fod yn ofynnol i'w cystadleuaeth gael ei chynnal dros gyfnod o 8 noson. Roedd ganddynt bryderon o ran canfod beirniaid a fyddai'n ymrwymo i fod ar gael am 8 noson. Hoffai Ceredigion weld rheolau CFFI Cymru yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd i roi cyfle i'r clybiau ystyried. Nodwyd na fydd gan Geredigion neb yn cystadlu ar y lefel Genedlaethol oherwydd nid oes ganddynt unrhyw glybiau yn cystadlu yn Saesneg.

Mae gan Sir Gaerfyrddin bryderon ynghylch y lleoliad oherwydd nid ydynt wedi llwyddo i ganfod lleoliad sy'n caniatáu mwy na 10 ar y llwyfan. Mae ganddynt bryderon hefyd ynghylch aelodau arweiniol y perfformiadau yn dal COVID cyn y gystadleuaeth, sy'n golygu y byddai'n rhaid i glybiau dynnu'n ôl.

Mae Gwent yn bwriadu cynnal cystadleuaeth y Pantomeim yn ôl yr arfer.

Yn dilyn adborth gan yr holl siroedd, cytunwyd y byddai'r pantomeim yn cael ei gynnal ar lefel CFFI Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Cynigydd:** Elen Williams, Morgannwg

**Eilydd:** Delun Evans, Sir Benfro

Cafwyd trafodaethau ynghylch dyddiad y gystadleuaeth. Cytunodd y pwyllgor y byddai dyddiad y gystadleuaeth yn cael ei newid, a'r dyddiadau newydd yw'r 12fed a'r 13eg o

Fawrth. Byddai'r gystadleuaeth Saesneg ar y dydd Sadwrn a'r gystadleuaeth Gymraeg ar y dydd Sul.

Caniateir cyfranogiad y gynulleidfa ar lefel Cymru cyn belled ag y bydd cyfyngiadau yn caniatáu.

Cytunodd y pwyllgor y dylai rheolau CFFI Cymru fod mor debyg ag y bo modd i rai FfCCFFI, cyn belled ag y bydd cyfyngiadau yn caniatáu hynny.

Gofynnodd Siân i'r pwyllgor am eu barn ynghylch beth fyddai'n digwydd pe bai aelod yn dal COVID cyn y gystadleuaeth. Ar lefel sirol, roedd pryderon fod rhai clybiau yn llai ac ni fyddai ganddynt unrhyw aelodau i gamu i'r bwlch. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ar y lefel sirol a dylid rhannu adborth yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Trafododd y pwyllgor beth fyddai'n digwydd pe bai'n rhaid i ffederasiwn sirol dynnu'n ôl o gystadleuaeth ar y funud olaf oherwydd COVID-19. Eglurodd Siân mai'r dull arferol yw cynnig cyfle i'r clwb sy'n ail os na fydd y clwb buddugol yn gallu cystadlu. Caiff hyn ei gadarnhau yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Gofynnodd Siân i'r holl siroedd gadarnhau a fyddant yn cystadlu yn y Pantomeim Cymraeg a Saesneg erbyn dydd Gwener y 10fed o Ragfyr.

### **C/30/2022 EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD**

- Adborth o'r Ffair Aeaf a'r Eisteddfod
- Cymeradwyo rheolau'r Wledd o Adloniant a thynnu enwau o het i benderfynu trefn y cystadlu
- Rheolau siarad cyhoeddus

Bydd y cyfarfod llawn nesaf o'r Is-bwyllgor Cystadlaethau yn cael ei gynnal trwy gyfrwng Zoom ar ddydd Mawrth y 14eg o Ragfyr am 7yh

### **C/31/2022 UNRHYW FATERION ERAILL**

Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol i'w trafod, felly daeth y cyfarfod i ben.